

Papur Pawb

Pris: 50c

Mawrth 2015

Rhif 407



"Ac ma' nhw'n dweud - ar ddiwrnod tawel - y gelli di glywed cloch ysgol Llangynfelyn hefyd..."

CALONNAU TALYBONT YN SAFF!

Yn dilyn ymgyrch godi arian hynod lwyddiannus, sicrhawyd pedwar deffibrilwr ar gyfer cymunedau Tal-y-bont a Bontgoch.

Cafodd y teclynau adfer y galon eu cyflwyno i'r gymuned gan Sharon Owen o elusen Calonau Cymru mewn derbyniad arbennig a drefnwyd yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar ddydd Sadwrn 21 Chwefror.

Mewn cwta bedwar mis codwyd dros £1700 er mwyn sicrhau tri deffibrilwr ac ychwanegwyd at y cyfanswm drwy garedigrwydd Adran Chwist Clwb Bowlio Machynlleth a gyfrannodd £500 tuag at un o'r tri peiriant a fydd ar gael yn Nhal-y-bont.

Golyga hyn y bydd un peiriant yn cael ei gyflwyno i gymuned Bontgoch.

Bellach, mae trefniadau ar droed i osod y deffibrilwr mewn



llefydd cyhoeddus lle bydd modd cael hyd iddynt 24 awr y dydd.

Mae trefniadau hefyd yn cael eu gwneud i ddarparu sesiynau hyfforddi i bobl ar sut i'w defnyddio. Eisoes cynhaliwyd

un sesiwn ddiwedd 2014 a'r gobaith yw cynnal un arall cyn yr haf.

Mae trefniadau ar gyfer gosod deffibrilwyr ym mhlwyf Llangynfelyn hefyd ar y gweill.

Bydd Papur Pawb yn adrodd ar hyn yn y rhifyn nesaf.

Os am wybod mwy am elusen Calonau Cymru, ewch i <http://welshhearts.org>.

Panto Cantre'r Gwaelod



Ffermwy'r Ifainc Tal-y-bont yn disgleirio eto - adroddiad ar dudalen 4

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
GOHEBYDDION LLEOL		
Tal-y-bont:	Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont	832592 832438
Maes-y-deri:	Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont	832483
Parsel Henllys:	Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont	832498
Bont-goch:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Tre Taliesin:	Sian Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin	832230
Tre'r-ddôl:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl	832429 (01654) 781260
Eglwysfach/Ffwrnais:	Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	(01654) 781324
CYMDEITHAS PAPUR PAWB		
Cadeirydd:	Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Is-gadeirydd:	Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont	832760
Ysgrifennydd:	Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832433
Trysordd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanysgrifiadau:	Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	832076
Plygu'r Papur:	Gwenllian Parry-Jones; Tegwen Jones	
Dosbarthwyr:	John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Llythyron

Annwyl Papur Pawb,

Mae Cyngor Sir Ceredigion am glywed eich barn ar ddyfodol y ddarpariaeth yng nghartrefi preswyl y Sir.

Manteisiwch ar y cyfle i roi sylwadau ar y cynigion gan ein bod yn awyddus i glywed eich barn a byddwn yn ystyried unrhyw bryderon neu awgrymiadau sydd gennych.

Mae'r cartrefi preswyl yma yn rhan o'r ymgynghoriad:

- Bodlondeb, Aberystwyth
- Tregerddan, Bow Street
- Bryntirion, Tregaron
- Min-y-Môr, Aberaeron
- Awel Deg, Llandysul
- Hafan Deg, Llanbedr Pont Steffan
- Yr Hafod, Aberteifi

Mae gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar gael drwy gysylltu â 01545 574000 neu ar-lein wrth ymweld â'r dudalen Ymgynghoriadau ar www.ceredigion.gov.uk

Mae'r cyfnod ymgynghori wedi ei ymestyn hyd 30 Ebrill 2015.

Diolch yn fawr

Siwan

RHANNWCH EICH ATGOFION

Annwyl Olygydd,

Bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cynnal stondin undydd, ar safle hen siop Boots, Ffordd y Môr, Aberystwyth, dydd Sadwrn 28ain Mawrth eleni rhwng 10:00 a 4:00 o'r gloch.

Prif fwriad y digwyddiad yw annog trigolion y dref a'r cylch i hel atgofion am Aberystwyth, trwy ddod ag eitemau megis ffotograffau a llythyron ag ati sy'n ymwneud â'r dref, i'r siop fel y gellid eu digido a'u gosod ar wefan Casgliad y Werin Cymru. Bydd cyfle hefyd i rannu atgofion ar lafar a'u recordio ar gyfer y wefan.

Bydd arbenigwyr hanes teulu a hanes lleol y Llyfrgell yn bresennol i gynnig cyngor, ynghyd â staff prosiect Cynefin, sy'n mynd ati i hel enwau caeau Cymru. Hefyd, byddwn yn arddangos hen luniau o Aberystwyth o gasgliadau'r Llyfrgell.

Mae croeso cynnes i bawb ddod i'r digwyddiad ar yr 28ain o Fawrth. Dewch yn llw, a dewch â'ch eitemau am Aberystwyth gyda chi!

Am fanylion pellach cysylltwch â post@llgc.org.uk neu ffoniwch Aberystwyth 632534

Yn ddiffuant

Rhian Williams

Clwb Nos Wener

YR HITTITES

yn y Llew Gwyn
am 8 nos Wener,
Mawrth 27

Dyddiadur

Mawrth

- Bethel** 10.00 Trefn Lleol
Nasareth
Rehoboth 10.00 Adrian
P Williams
Eglwys Dewi Sant 11.00
Boreol Weddi
- Neuadd Goffa Talybont**
Merched y Wawr 'Trin Traed'
(Sian Jones, Bontgoch)
- Neuadd Goffa** Sefydliad
y Merched: 'Cynllun Gerddi
cenedlaethol' (Pat Causton)
- Bethel** 10.00 yn Soar
Llanbadarn: Oedfa Undebol
yr Ofalaeth (Gweinidog)
Nasareth 5.00 Parch Elwyn
Pryse
Rehoboth 10.00 Parch
W.J. Edwards
Eglwys Dewi Sant 11.00
Cwrdd Teuluol
- Y Llew Gwyn** 8.00 Clwb
Nos Wener gyda'r Hittites
- Bethel** 10.00 Gweinidog (C)

Nasareth 5.00 Parch
Nicholas Bee

Rehoboth 5.00 Parch
Elwyn Pryse

Eglwys Dewi Sant 11.15
Oedfa Sul y Blodau
yn St Michael's, Llandre

Ebrill

- Bethel** 10.00 Oedfa
Undebol Gwener y Groglith
- Bethel** 10.00 Oedfa
Undebol Sul y Pasg
2.00 Oedfa blant
Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth
Eglwys Dewi Sant 11.00
Oedfa Gymun Sanctaidd Y
Pasg
- Bethel**
Nasareth 11.15 Bugail (C)
Rehoboth 10.00 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 11.00
Oedfa Gymun Sanctaidd

CRONFA GOFFA'R FONESIG GRACE JAMES

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau'r henoed am gymhorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn 31 Mawrth 2015.

Yr ysgrifennydd yw:

Mary Jones, Lleifior, 27 Glan Rheidol, Llanbadarn Fawr
Aberystwyth SY23 3GG

01970 624408; e-bost: lleifior@dircon.co.uk

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr Community Council

Tendr Cynnal a Chadw

Mae'r Cyngor yn gwahodd tendrau gan unigolion sydd â phrofiad perthnasol i gyflenwi gwaith cynnal a chadw ym Mynwent Gyhoeddus Tal-y-bont, y Patshyn Glas, y Cae Bach a'r Maes Chwarae.

Dylai'r sawl sydd â diddordeb yn y gwaith wneud cais am fanylion pellach drwy gysylltu â: Lowri Jones, Frongoch View, Tre'r Ddol, Machynlleth SY20 8PN; e-bost: j.lowri@yahoo.co.uk; ffon 01970 832403/ 07886367027

Dyddiad cau derbyn tendrau fydd 4pm dydd Gwener 3ydd Ebrill 2015

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Pwys. SY20 8JG Cymru

Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn Nyddiadur y Mis, dylech anfon y manylion llawn at Glens Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832 442) o leiaf deng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o'r papur.

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Enid a Robat gyda Robat yn dylunio. Golygyddion mis Ebrill fydd Fal a Gwyn (gwyn@tal-y-bont.fsworld.co.uk). Ceri fydd yn dylunio. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 3 Ebrill, a bydd y papur ar werth ar 10 Ebrill.

Pobl a Phethe



Cafodd Mrs Valma Jones, Y Wern, Tal-y-bont, ymweliad gan berthnasau iddi o Awstralia ar ddydd Gwener olaf Chwefror. Roedd Donna Morgan, ei mab bychan Lachie, a'i chwaer Shirley wedi teithio o Queensland i chwilio ymhellach i hanes eu teulu. Roedd eu cyndeidiau wedi ymfudo i Awstralia yn ystod y 19eg ganrif gan ymgartrefu ger Brisbane. Mae'r teulu yn perthyn i deulu enwog Lewis Thomas a wnaeth ei ffortiwn yng nglofeydd Queensland.

Yn ogystal â Valma, cyfarfu'r tri â pherthnasau eraill tra yn yr ardal. Yn eu plith oedd Mrs Mary Thomas (Rhydyronnen gynt) ac Owen Watkin a'i fam Mrs Ann Watkin a oedd yn arfer byw yn Nhalesin ond sydd bellach yng nghartref Tregerddan. Buont hefyd yn ymweld â rhai o hen gartrefi eu teulu a chawsant wybodaeth werthfawr gan Hefin Llwyd. Bu Donna hefyd yn gorymdeithio ym Mharêd Gwyl Ddewi Aberystwyth a mwynhau'r arlwy yn y Noson Cawl a Chân yn Nhal-y-bont.



Ennill Cadair

Llongyfarchiadau i Carys Briddon, Tre'r Ddôl, ar ennill y gadair yn Eisteddfod Gadeiriol Llanllyfni yng Ngwynedd. Derbyniodd ei cherdd fuddugol ganmoliaeth fawr gan y beirniad, Karen Owen.

Croeso

Estynnir croeso i Karen Jones sydd wedi symud i fyw i hen gartref ei theulu yn Frongoch, Tre'r-ddôl.

Da iawn Geraint

Llongyfarchiadau i Geraint J.Howard, Brynfa, Talybont ar gael ei ddewis ar gyfer cynhyrchiad Cymraeg o'r sioe gerdd Les Mis a fydd yn cael ei lwyfannu yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd ym ms Hydref eleni. Urdd Gobaith Cymru sydd yng ngofal y cynhyrchiad ac y mae Geraint yn un o saith aelod o'r Urdd sydd wedi eu dewis o Geredigion. Da iawn ti.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn fawr â Christine Evans, Bryn Eleri, Talybont ar golli ei mam yn ddiweddar. Mae Christine yn hannu o Baris ac yno roedd ei mam yn byw.

Gwella

Da deall fod Dilys Morgan, Allt Goch, Talybont wedi dod adre o ysbyty Bronglais ac yn gwella yn dda ar ôl ei thriniaeth. Mae Nia Jones, Ardwyn, Talybont hefyd wedi bod yn yr ysbyty ac wedi dod gartref. Pob dymuniad da iddi.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Gwydion Jones Gellimanwydd, Talybont a'i bartner Arwel ar eu hymddangosiad ar y teledu nos Iau Chwefror 26ain ac eto Mawrth 5ed ar y rhaglen Celwydd Noeth. Diolch i'w gwylbodaeth eang ar nifer o bynciau mae nhw wedi llwyddo i ennill £1,000 rhyngddynt. Gwobr dderbyniol iawn i fyfyrwr tlawd.

Anrhydeddu Hywel



Mewn seremoni yng Nghynulliad Blyneddol Y Coleg Cymraeg dyfarnwyd Gwobr Goffa Eilir Hedd Morgan i Dr. Hywel M. Griffiths. Mae Hywel Griffiths, ei wraig Alaw a'i ferch fach Lleucu wedi byw gyda ni yn Nhalybont ers peth amser. Mae'n darlithio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn Daearyddiaeth Ffisegol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae Hywel yn awdurdod ar gyfraddau erydiad ar afonydd craigwely, ac wedi ymchwilio i ehangu cofnodion o lifogydd yng Nghymru ynghyd â theithio i nifer o wledydd i ymchwilio i ddull o allu synhwyro o bell er mwyn astudio prosesau geomorffolegol. Ef yw cadeirydd presennol Pwyllgor Daearyddiaeth ac Amgylchedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.



Priodas Ddiemwnt

Mae Reg a Vina Chadbourne Berllan Fach, Talybont wedi dathlu ei penblwydd priodas Ddiemwnt ar ddydd Iau diwethaf 5ed o Fawrth. Priodwyd hwy yn Mansfield, Nottinghamshire yn 1955 ond nawr yn byw yn Nhalybont ers 1995. Maent yn rhieni i Stuart a'i wraig Joy o Bentre Bach.

Penblwydd Arbennig

Pob dymuniad da ar gyfer penblwydd hapus iawn i Mignon Rowlands, Glanhaul, Taliesin a fydd yn dathlu penblwydd arbennig ar 29 Mawrth.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys ag Olwen Rowlands, 3, Wesley Terrace, Taliesin a gweddill y teulu ar golli ei chwaer Annie ddiweddd mis Chwefror.

Tristwch

Trist iawn yw cofnodi y bu farw Mary Powell, Suncot, Taliesin ar 2 Mawrth 2015.

Bore Coffi Eglwys Dewi Sant

Cynhaliwyd Bore Coffi Eglwys Dewi Sant ar ddydd Sadwrn, 14 Chwefror yn y Neuadd Goffa, Talybont. Roedd yna stondin gacennau, stondin llyfrau a stondin bric-a-brac. Hefyd, cafwyd raffl er mwyn i bawb gael cyfle i gymeryd rhan. Eleni, defnyddiwyd y Neuadd Isaf ac fe gafwyd naws gyfeillgar a chafwyd cyfle i gymdeithasu ac i sgwrsio dros paned o goffi. Diolch i bawb a gefnogodd yr Eglwys ac hefyd i'r rhai a fethodd bod yn bresennol ond a oedd wedi rhoi cyfraniadau a chodwyd y swm o £333.80.

loga

Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.

Pris £5.00

Cysylltwch a

Sue Jones-Davies

01970 624658

Cawl a Chên

Dathlwyd Gŵyl Ddewi yn deilwng iawn yn y pentre mewn noson braf o Gawl a Chên yn y Neuadd Goffa nos Sadwrn, Chwefror 28ain. Daeth nifer dda ynghyd i fwynhau cawl cartre blasus, ac yna adloniant gan Meibion y Mynydd, côr meibion cymharol newydd o ardal Ponterwyd, a gyflwynwyd gan Bob Penwern. Cawsom noson hwyliog o ganeuon Cymreig oedd yn cynnwys ffefrynnau fel *Gwalia*, *O Walia* gan y diweddar Rhys Jones, a chaneuon actol doniol, yn cael eu cymysgu ag unawdau, ac ambell i jôc. Y cyfeilydd dawnus oedd Caryl Jones, a'r unawdydd ardderchog oedd Rheinalt Jones (gw. y llun). Roedd y cymysgedd yn berffaith ar gyfer Gŵyl Ddewi er trueni effallai, wedi'r fath wled o Gymreictod, i'r noson orffen a chên Saesneg allan o *Chess*.



Cawl a Phanto

Roll up, roll up, panto newydd sbon!

Mae Seithennyn yn ddyn pwysig iawn yn chwedl Cantre'r Gwaelod gan mai ef oedd â chyfrifoldeb mwya'r deyrnas, sef cau gatiâu'r muriau er mwyn cadw'r dyfroedd allan.

Dywed yr hanes bod Seithennyn yn hoff iawn o yfed medd ond nid felly yng nhyflwyniad panto CANTRE'R GWAELOD gan Glwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont, gan Elen Pencwm a Geraint Cerrigaranau. Rhaid diolch yn arbennig i Elen am roi cymaint o'i hamser prin unwiath eto.

Mae cyfnod cystadleuaeth pantomeim y Clybiau Ffermwyr Ifanc yn amser cyffrous dros ben lle mae nifer o glybiau dros Gymru gyfan yn brwydro o fewn eu siroedd i ennill cystadleuaeth y panto gorau. Dachreuodd y daith i ni yng ngwaelod y Neuadd Goffa pan gyflwynwyd y sgript i ni a chastiwyd y cymeriadau ac roedd yna fwrllwm a hwy! a sbri o'r cychwyn cynta.

Aeth y stori â ni allan i fae Ceredigion lle'r oedd Gwyddno Garan Hir yn teyrnasu a'i bobl yn byw bywyd bodlon. Ond, roedd storm ar y gorwel pan gyfarfu Gwrach Cors Fochno â Gwyddno Garan Byr, brawd y brenin. Roeddynt yn wyrdd mewn cenfigen wrth iddynt gynllwynio i foddï Cantre'r Gwaelod am byth!

Daeth nifer o gymeriadau lliwgar a hwyliog i achub y dydd pan oedd Seithennyn mewn trwbl - Mererid y môr forwyn,



Mrs. Fflat Owt, Chantelle a Pic a Mics (heb anghofio am y sanau drewllyd!). Dyna beth oedd DING DONG! Aeth y clwb i gystadlu yn erbyn 11 clwb arall o fewn y sir a llwyddwyd i seinio'r larymau yn Felinfach wrth i ni gystadlu fflat owt!

Rhan pwysig arall o'r cyfnod yma yw mynd â'r panto ar daith, symudwyd Cantre'r Gwaelod i Lantwymyn ac Ysbyty Ystwyth i berfformio gyda chlybiau Ffermwyr Ifanc Bro Ddyfi a Thrisant, cyn cloi yn addas iawn ym mhentref Tal-y-bont drwy gynnal noson 'Pigion Pantomeim' ynghyd â Bro Ddyfi fel clwb gwadd.

Er fod y clwb wedi cael siom yn nyfarniad y gystadleuaeth yn Felinfach, roedd pob un aelod wedi llwyddo i fagu hyder ar lwyfan, i ddatblygu sgiliau newydd ac wrth gwrs, joio mas draw!

Steffan Nutting



Trysorau Ruth

Mae fy ngwaith diweddar wedi ei ysbrydoli gan ddarnau o frethyn, carthenni a'r diwydiant gwlan yng Nghymru. Wrth i fi ymchwilio i'r maes cefais ysbrydoliaeth o weld llyfr nodau clust yng nghasgliad Sain Ffagan, sef llyfr llawysgrif o 1825 gan Hugh Edwards,

arbennig er mwyn dynodi perchnogaeth. Mae pob nod clust yn perthyn i fferm benodol ac yn cael ei drosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth, a'i gofnodi mewn llawysgrifen a llyfrau.

Yn ystod y ddwy flynedd diwetha rwy wedi bod yn

ymchwilio a chasglu enghreifftiau amrywiol o'r dulliau y bydd ffermwyr a bugeiliaid yn eu defnyddio i gofnodi clustnodau defaid. Ac rwy'n awyddus iawn i ganfod mwy!

Tybed a oes gan rhai o ddarlennwyr



Cae Coch ger Dolgellau. Fel y gwyr cymaint o ddarlennwyr Papur Pawb, y mae'n arfer gan fugeiliaid i farcio clustiau defaid gyda chyffres o doriadau

Papur Pawb gofnod neu lyfryn tebyg? Gall fod yn lyfr cownt cyhwysfawr neu'n un dudalen yn unig – rwy'n awyddus i weld pob math o esiamplau.

Dydwi i ddim yn bwriadu eu cadw o gwbwl, yn hytrach mi hoffon gael y cyfle i'w gweld a gwneud copiau ohonynt drwy dynnu ffotograffau neu eu copio i fy llyfrau sgetcio.

Dwi hefyd yn edrych am hen luniau a ffotograffau o achlysuron megis 'Diwrnod Cneifio' 'Cinio Cneifio' 'Te Cneifio' 'Swper Cneifio' a hefyd hoffon i weld enghreifftiau gwahanol o haearnau nodi neu haearn pitcho defaid. Rwy eisoes wedi gweld un S – sy'n eitha anarferol – tybed a allwch ddyfalu pwy sy'n berchen ar hwnnw? Ond does dim rhaid cael rhai anarferol – rwy'n



awyddus i weld rhai o bob math gan gynnwys ambell J – tybed a fyddai un o'r rheiny yn yr ardal yma?

Mi fyddaf yn hapus ac yn ddiochgar iawn i weld unrhyw

enghreifftiau o'r trysorau hyn. Cysylltwch â Ruth drwy ebost: ruthjen@btinternet.com, ffon: 01970832050 neu cofiwch bod croeso i chi alw heibio'r ty unrhyw bryd!



Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

TEIARS
HUW LEWIS
TYRES

Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Chwefror.

1. Tyllau yn y Ffordd

Adroddodd y Clerc iddi gysylltu gyda'r Cyngor Sir er mwyn cael diweddariad ar y sawl achos agored o dyllau dros ffyrdd amrywiol Ceulanamaesmawr. Nid oedd diweddariad ar waith ffordd Cwm Ceulan nac ychwaith ar y groesffordd ger Llety Ifan Hen, Bont-goch. Serch hyn, adroddwyd i'r Clerc gan etholwyr y plwyf fod y Cyngor Sir wedi gwneud gwaith ar y ffordd rhwng Bontbren-Geifr i waith Bwlch Glas.

2. Plac Goffa Dr & Mrs Watkin

Adroddodd y Clerc y newyddion da fod y plac bellach yn ei le ar fainc ganol y Patshyn Glas.

3. Biniau Halen

Adroddodd y Clerc iddi gysylltu gyda'r Cyngor Sir i gael diweddariad ar y gwaith i fin halen Glanrafon. Nid oedd diweddariad ar y gwaith. Cytunwyd i'r Clerc barhau i ddilyn y mater.

4. Sefydliad Aren Cymru – 'Walk for Life 2015'

Derbyniwyd hysbys gan y sefydliad ei bod yn trefnu diwrnod ymwybyddiaeth genedlaethol ar ddydd Sul, 26 Ebrill. Mae teithiau cerdded genedlaethol yn cael ei drefnu ar y diwrnod er mwyn codi arian ar gyfer yr elusen. Os oes diddordeb gydag unrhyw un trefnu taith gerdded, dylid e-bostio Melanie@kidneywales.com neu Bethan@kidneywales.com, neu alw 02920 343940 i gael rhagor o wybodaeth.

5. Cau ffordd dros dro: C1031 – Lorely- Brynadda, Stay Little, Tal-y-bont

Derbyniwyd hysbys y bydd y ffordd ar gau rhwng 9yb 17 Mawrth, hyd nes 4.30yp 18 Mawrth, er mwyn gweithio ar y gwifrau pŵer uwchben y briffordd.



Geraint Jenkins, Cerrigcarannau gyda dau o gyflwynwyr Prynhawn Da

Dros y deunaw mis diwethaf mae criw brwdfrydig o aelodau ifanc Cymdeithas Gwartheg Duon Cymreig wedi ffurfio grŵp i hyrwyddo'r brîd, gyda chymorth cynllun Agrisgôp.

Nôd y grŵp yw egino syniadau newydd i geisio ymledu a hyrwyddo Cig Eidion Du Cymreig i'r cyhoedd a nodweddion y fuwch ddu Gymreig fel y fuwch ddelfrydol i ffermwyr buwchod sugno.

Ers yr Hydref mae'r grŵp wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol i farchnata'r brîd. Sefydlwyd cyfrif trydar i'r Gymdeithas, '@WelshBlacks' sydd wedi bod yn hynod o lwyddiannus i hyrwyddo ag i ailgysylltu'r cwsmer gyda'r cynnyrch, gyda Barney Desmazery, golygydd bwyd y BBC yn trydaru, 'When it's well kept it really is the best WelshBlacks' ac

Sylw i Gig Du

un o gogyddion mwyaf adnabyddus Cymru - Bryn Williams yn aildrydaru a gadael sylwadau ffaithiol am ansawdd arbennig Cig Eidion Du Cymreig.

Sbardunwyd syniad gan aelodau'r grŵp i greu ymgyrch i annog y cyhoedd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi trwy fwynhau pryd o Gig Eidion Du Cymreig. Gan fod dydd gŵyl dathlu ein nawddsant yn cwmpo ar y Sul pa well ffordd na dathlu trwy gefnogi ein brîd cynhenid?

Bu'r ymgyrch yn hynod lwyddiannus a chafwyd gryn sylw ym mhrif papurau Cymru - y 'Daily Post' ar 'Western Mail'. Derbyniwyd gwahoddiad i gael cyfweiliad ar rhaglen S4C 'Prynhawn da' i adrodd hanes ein ymgyrch a thrafod mwy am y cig arbennig hwn.

Ers sefydlu'r grŵp mae'r criw wedi llwyddo cynyddu momentwm a chwrdd gyda rhai o brosewyr cig eidion mwyaf blaenllaw'r diwydiant i drafod cyfleoedd cydweithio i'r dyfodol i sicrhau bod y brîd yn cael cydnabyddiaeth haeddianol.

Mae'r grŵp yn parhau i gwrdd yn rheolaidd ag os fyddwch chi'n paratoi pryd arbennig o fwyd, a bod Cig Eidion Du Cymreig ar y fywlen, rhannwch eich lluniau ar trydar i @WelshBlacks - fyddwch chi siwr o neud grŵp o ffermwyr ifanc yn hapus iawn!

Cofiwch, ymwelwch â'ch Cigydd Lleol - gofynnwch am Gig Eidion Du Cymreig wrth ei enw a chefnogwch eich brîd cynhenid!

Merched y Wawr Talybont a'r Cylch

Braf oedd cael croesawu Eirian Gravelle, merch un o'n haelodau ffyddlonaf, Tegwen, i'r gangen ar nos Lun, 16 Chwefror. Nyrs wrth ei galwedigaeth yw Eirian sydd yn gweithio yn ysbyty Bronglais.

Dechreuodd ei sgwrs trwy fynd â ni yn ôl i'r dechrau'n deg gan adrodd hanes ei hyfforddiant yn Ysbyty Wrecsam cyn derbyn swyddi nyrsio yn Lloegr a Chymru.

Clywsom am y rhai gafodd ddylanwad ar ei gyrfa dros y blynyddoedd ac a fu'n rhan bwysig o'i hyfforddiant gan

sicrhau ei bod wedi mabwysiadu safonau o'r radd flaenaf.

Soniodd hefyd fel y bu iddi ymddiddori ym maes haemotoleg, a hi bellach sydd yn cynorthwyo'r Arbenigwr yn Ysbyty Bronglais yn y maes yma gan redeg clinigau pwrpasol. Mynegodd ei phryder ynglyn â'r gwasanaeth iechyd, ond fe ddaeth yn amlwg i ni yn ystod y nos fod gan Eirian y parch mwyaf tuag at ei chleifion a'i bod yn fawr ei gofal ohonynt. Ymfalchiwn ninnau fod gennym rai fel Eirian yn nyrsio yn Ysbyty Bronglais.



Trysor Cenedlaethol yn perfformio yng Nghlwb Nos Wener

Pryd oedd y tro diwethaf i gynulleidfa Clwb Nos Wener godi ar ei thraed i gymeradwyo ar ddiwedd y noson, tybed? Ond dyna ddigwyddodd yn sgil perfformiad ysgubol Siân James a'i gŵr Gwyn yn y Llew Du nos Wener 13 Chwefror. Roedd pawb wedi'i swyno'n lân gan ddoniau'r cerddor, cantores a chyfansoddwraig o Ddyffryn Banw. Yn ogystal ag eitemau cyfarwydd, cyflwynodd Siân nifer o gyfansoddiadau newydd cyffrous a gafodd dderbyniad gwresog gan y gynulleidfa niferus.

Ar ben ei thalentau cerddorol, mae Siân hefyd yn cyflwyno ei chaneuon a chyfansoddiadau mewn ffordd gartrefol braf llawn hiwmor sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â'r gynulleidfa. Fel y dywedodd Ellen ap Gwynn wrth ddiolch iddi ar ddiwedd y noson, mae Siân yn cynnig pecyn arbennig iawn a bydd y cof am y noson (gan gynnwys bwyd blasus y Llew Du) yn para'n hir.

Diolch i bawb a gefnogodd y noson a noddwyd gan Noson Allan.

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Bocsas a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffôn: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

Wales REMOVALS
www.walesremovals.co.uk

INVESTORS | BUDDODDWR
IN PEOPLE | MANN FOL

Mae MALI HARRIES i'w gweld ar Sky1 pob nos Fawrth mewn cyfres o'r enw CRITICAL ond ar hyn o bryd mae'n lletya yn nalgylch PAPUR PAWB wrth iddi ffilmio Y GWYLL yng Ngheredigion; hi yw DI Mared Rhys yn y gyfres. Bu Rhys Huws yn ei holi ar ran Papur Pawb.

Pryd a ble gawsoch chi eich profiad cyntaf ar lwyfan?

Ar lwyfan Theatr y Sherman yn blentyn ac yn eu cynhyrchiade Nadolig.

Beth yn arbennig wnaeth i chi benderfynu ar yrfa fel actores?

Oni fod astudio'r gyfraith ond y funud ola trio am le mewn coleg drama a mynychu The Bristol Old Vic Theatre School.

Pa un sy orau gennych, llwyfan, stiwdio neu ffilmio, a pam?

Ffilmio oherwydd gallwch chi wastad trio eto.

A oes gennych air o gyngor i'r ifanc sy'n awyddus i fod yn actorion?

Gweithiwr yn galed, dysgwch eich llinellau a chredwch yn eich hun.

Pa rôl, hyd yn hyn, sydd wedi gofyn mwyaf ohonoch chi a pha rôl ydych chi'n edrych yn ôl arni gyda balchder?

Rôl DI Mared Rhys yw y mwyaf heriol a Nerys Merrick yn CRITICAL yw yr un dwi mwyaf balch ohoni. Wedi cwrdd a phobol arbennig iawn yn y cynhyrchiad yma ar SKY1 ac yn falch o'u cymryd ymlaen fel ffrindiau agos.

Sut fyddwch chi'n ymlacio?

Darllen a gwylio cyfresi fel Breaking Bad, House of Cards, Orange is the New Black.#

Tu allan i'r gwaith beth yw eich diddordebau?

Cadw'n heini a chael amser tawel gyda'r teulu.

Sut fyddwch chi'n cadw'n heini?

Rhedeg a threinio.

Beth ydych chi'n casáu amdanoch chi eich hun?

Bod yn ddi-amynedd a'n tymer i.

Pryd a ble oeddech chi mwyaf hapus?

Adre gyda'r teulu.

Pa air fyddwch chi'n ei defnyddio rhy aml?

Lovely.

Oes rhywbeth yn eich gwaith sy'n eich gwylltio'n gyson?

Dim – swydd ffantastig â dim

Beth achosodd y mwyaf o embaras i chi?

Anodd iawn neud hynny – rwy'n berson weddol ddi-ffws.

Tra'n ffilmio yma yng Ngheredigion a oes rhyw fan fydd yn aros yn y cof?

Mae'r lleoliadau i gyd yn aros yn y co; Trisant, Ffwrnais, Y Borth, Pont-ar-fynach.

Gan gofio eich bod yn Saesneg ar Sky1 nawr, faint y canran o'ch gyrfa sydd wedi bod yn Gymraeg?

45%.

Ydy oerni Mathias yn toddi yn y gyfres nesaf ac a gewch chi gyfle i wenu o'r diwedd?

Trwy weithio gyda'n gilydd mae llawer o bethau'n cael eu datgelu ac efallai bydd cyfle i'r oerni ddadmer – ond dim ond ychydig.

A oes gennych gyfrinach i rannu gyda ni?

Pethau personol yw cyfrinachau – dim gen i i'w datgelu.



Holi Mali Harries

Eisteddfod Ysgol Penweddig

Cystadlaethau Gwaith Cartref
CATRIN HUWS -- 1af barddoniaeth Gymraeg;
3ydd Tlws Trystan Maelgwn;
ESTHER LLWYD IFAN -- 3ydd yng
nghystadlueaeth y Goron;
FFION NELMES -- 2i, 1 Tlws Saesneg;
Cystadlaethau Llwyfan
MEDI EVANS -- Capten Llys Bledwyn ac
arweinydd y cor buddugol; sgets, grwp roc
(yn ogystal ag arweinydd côr Llys Bledwyn)
ESTHER LLWYD IFAN -- Captel Llys Hywel (y

Llys buddugol); - llefaru unigol, sgets,
meimo cân, grwp roc (yn ogystal â
chaptlen Llys Hywel)
NIAMH O'DONNELL -- Ensemble Sioe
Gerdd;
GERAINT HOWARD -- Ensemble Sioe
Gerdd, Monolog; Grwp Roc;
ROBIN A CARWYN TOMOS -- Grwp Roc;
LLYR JONES -- Grwp Roc, Deuawd
ddoniol;
LOUISA WILLIAMS -- Grwp Dawnsio
Disgo;

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00

(Un cwr: £7.95 Dau gwr £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245

garethwhitelion@outlook.com

argraffu da
am bris da



y/Lolfa

holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

Ysgol Tal-y-bont

Gŵyl Offerynnol Ceredigion
Llongyfarchiadau mawr i Nia a Glain ar eu llwyddiant yng Ngŵyl Offerynnol Ceredigion. Daeth Nia yn gyntaf a Glain yn drydydd yn yr unawd chwythbrennau i flynyddoedd 6 ac iau. Bydd Nia yn cynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod yr Urdd Caerffili a'r Cylch ym mis Mai am yr ail flwyddyn yn olynol.

Gŵyl yr Urdd Cylch Aberystwyth
Bu dros ugain o blant yr ysgol yn cystadlu yn y rhagbrofion a'r

plant i'r gwahanol eisteddfodau. Hoffwn ddiolch yn arbennig am gymorth Catrin Mai, Catrin Jones, Sion Pennant ac Erika am roi o'u hamser i ymarfer gyda'r plant. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r staff i gyd hefyd am bob cymorth ar yr adeg prysur yma.

Gŵyl celf a chrefft
Llongyfarchiadau mawr i Glain ar ennill y gystadleuaeth print lliw blwyddyn 5 a 6. Mae'r tomatos yma'n mynd i fod yn enwog twry Gymru gyfan nawr!



Dawnsyr Ysgol Tal-y-bont yn Eisteddfod yr Urdd

Eisteddfod gylch ac fel gafwyd llawer o lwyddiant eleni eto. Dyma'r canlyniadau –

Dawns disgo unigol – Heledd 3ydd
Dawns disgo grwp – 3ydd
Unawd cerdd dant blwyddyn 2 ac iau – Caoimhe 3ydd
Cyflwyno alaw werin unigol blwyddyn 6 ac iau – Miriam – 3ydd
Llefaru unigol blwyddyn 3 a 4 – Miriam – 2il
Parti unsain blwyddyn 6 ac iau – 2il
Ymgom blwyddyn 6 ac iau – 3ydd

Hoffwn i ddiolch i rieni a ffrindiau'r ysgol am eu gwaith yn paratoi'r plant ac am gludo'r

Hyfforddiant Pêl Droed
Mae disgyblion blynyddoedd 1 a 2 a merched blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn sesiynau hyfforddiant pêl droed o dan arweiniad Matthew Clement, Swyddog Datblygu Pêl Droed gyda Chymdeithas Bêl Droed Canolbarth Cymru.

Gweithdy Techniquet
Yn ystod y mis cafodd plant yr ysgol gyfle gwych i fynychu gweithdai gyda Mr Geoff Davies, cyn Ddirprwy Bennaeth yr ysgol sydd bellach yn gweithio i gwmni Techniquet. Roedd hi'n hyfryd i groesawu Mr Davies nol

i Ysgol Tal-y-bont ac roedd y plant wrth eu bodd yn gwrandao arno ac wedi mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau cyffrous yr oedd wedi eu darparu ar ein cyfer.

Parêd Gŵyl Dewi
Roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o blant a rhieni'r ysgol wedi cefnogi'r parêd blynyddol. Eleni, roeddem yn cerdded y tu ôl i faner drawiadol a ddyluniwyd gan Ruth Jên ac a addurnwyd gan blant yr ysgol. Diolch i bawb am eich cefnogaeth.

Gweithgareddau LLESOL
Llwyddodd yr ysgol i sicrhau

nawdd sylweddol gan Deuluoedd yn Gyntaf i redeg cyfres o weithgareddau i deuluoedd dan yr enw Gweithgareddau LLESOL yn yr ardal. Pwrpas y digwyddiadau yw i drefnu gweithgareddau diddorol i rieni a phlant yr ardal ddod at ei gilydd ac i hybu ymdeimlad cymunedol yn y pentref. Eisoes cafwyd sesiwn peintio ewinedd, ffitrwydd cylched mewn partneriaeth gyda'r Urdd a phrintio sgrin gyda'r artist lleol Becky Knight. Diolch i Anwen Curran am drefnu'r gweithgareddau ac i'r staff am eu cefnogaeth i'r nosweithiau hyn.

Ysgol Llangynfelyn

Kerbcraft
Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen a Blwyddyn 3 wedi cwblhau pedwar sesiwn gyda Kerbcraft. Cynllun diogelwch y ffordd ydyw sy'n rhoi cyfres o wersi i'r plant am sut i groesi'r ffordd yn ddiogel. Bu'r plant yn treulio cyfnod bob wythnos yn ymarfer croesi'r ffordd mewn amryw o lefydd yn Nhaliesin.

Arddangosfa Celf
Efallai bod rhai ohonoch wedi gweld eisoes arddangosfa o waith Celf y plant yn y Cwtsh yn Siop Cynfelyn. Rydym wedi derbyn amryw o sylwadau positif iawn am y gwaith a diolchwn yn fawr iawn i staff a gwirfoddolwyr Siop Cynfelyn am eu cefnogaeth.

Arad Goch
Bu Mari Turner o gwmni theatr Arad Goch yn yr ysgol yn cynnal cyfres o weithdai laith a Drama gyda'r plant. Bu'r Cyfnod Sylfaen yn ymarfer eu Cymraeg mewn ffordd hwyliog iawn wrth iddynt esgus bod yn anifeiliaid tra bod Dosbarth Cyfnod Allweddol 2 wedi bod yn gwneud gwaith byrfyfyr diddorol iawn.

Cyngerdd Cerddorfa
Aeth yr ysgol gyfan i'r Neuadd Fawr yn Aberystwyth i weld perfformiad gan Fand Chwyth

Symffonig Ceredigion, Cerddorfa Llinynnau Hyn Ceredigion a Chôr Telynu Ceredigion. Braf iawn oedd gweld amryw o gyn-ddisgyblion yr ysgol yn perfformio ar y llwyfan yn raenus iawn. Roedd y perfformiadau wedi ysbrydoli llawer o'r plant i ymarfer eu hofferynnau yn fwy! Bwydydd Byd-Eang Fel rhan o'u thema 'Bwydydd Byd-Eang', cynlluniodd Dosbarth Miss Jones wledd. Dewisodd pob plentyn wlad a buont yn casglu gwybodaeth am fwydydd y wlad. Daeth y plant a'u bwyd i'r ysgol a chafwyd gyfle i flasau amrywiaeth o fwydydd o thua 15 gwlad!

Llysgenhadon Ifanc Efydd
Cafodd Elijah Girardi ac Asher Wood, ein Llysgenhadon Ifanc Efydd, gyfle gwych i gymryd rhan mewn sesiwn hyfforddi arall yn Ysgol Plasrug. Mae'r ddau eisoes wedi cael hyfforddiant ar gynnal gemau ymarfer sgiliau yn ystod amser cinio. Yn y sesiwn fwyaf

Swyddfa Brاف



ar osod yn yr Emporiwm, Talybont; wedi'i rwydweithio'n llawn ac yn cynnwys cawod a chegin!
Holwch Robat am fanylion
ar robot@yloffa.com
neu 07703 163 447.

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

Cymdeithas y Chwirydd, Rehoboth

Cafwyd prynhawn diddorol yn festri Rehoboth, Taliesin, yng nghwmni Gwyn Jenkins, Tal-y-bont, ar brynawn Mawrth, 10 Chwefror, a thestun ei sgwrs oedd 'Ceredigion a'r Rhyfel Mawr'. Esboniodd fel roedd y Rhyfel Byd Cyntaf wedi effeithio'n fawr ar ardaloedd gwledig, megis Ceredigion, er eu bod yn bell o faes y gad. Aeth miloedd o Geredigion i frwydro yn y rhyfel a lladdwyd dros 1,000 ohonynt, gan gynnwys sawl un o'r ardal yma sydd a'u henwau ar gofobau yn lleol. Hefyd cafwyd hanes rhai dynion o'r ardal a ymunodd â'r fyddin ond a fu'n ffodus i ddod adre'n saff. Diolchwyd i Gwyn gan Non Griffiths, a diolch i Megan Brickley ac Olwen Rowlands a oedd yng ngofal y te.



Côr unsain Ysgol Talybont yn Eisteddfod yr Urdd

diweddar daeth Jenna Downing, pencampwr 'in-line skating' y byd, i siarad â'r llysgenhadon am ei phrofiad o gystadlu mewn rasys ledled y byd.

Llewpart yr Eira

Fel rhan o'r thema 'Sŵ Bach', penderfynodd Dosbarth y Cyfnod Sylfaen y byddent yn hoffi mabwysiadu anifail prin. Ar ôl ymchwilio ar safle wê'r WWF, penderfynon nhw fabwysiadu llewpart yr eira. Llenwyd y ffurflenni ac mewn ychydig o ddyddiau daeth tystysgrif, cylchgrawn a thegan meddal llewpart yr eira yn y post. Daeth tad Alice, sef Neil Groves i'r ysgol i ddangos lluniau i'r plant o pan fu'n gwneud gwaith ymchwil yn Nepal gyda'r bugeiliaid sy'n byw yn yr un cynefin â'r llewpart eira. Gwrandawodd y plant yn astud iawn a gofynnon nhw gwestiynau diddorol iawn i Neil.

Pantomeim Machynlleth

Llongyfarchiadau mawr iawn i Jasmin, Jasmine, Asher, Poppy, Dylan a Noah a fu'n actio a chanu ym Mhantomeim Machynlleth yn ystod Hanner Tymor. Enw'r pantomeim oedd 'Star Wars - the Panto Menace'. Roedd eu perfformiadau yn arbennig iawn. Llongyfarchiadau hefyd i dad Poppy a Dylan sef Duncan Kerridge am ei berfformiad gwych hefyd!

PC Alun Jones

Daeth PC Alun Jones i'r ysgol

YMREOLAETH
Chwarae teg
i Gymru

2pm, 4/04/15
Y SENEDD, CAERDYDD

yescymru.org | facebook.com/yescymru |
twitter.com/yescymru | post@yescymru.org

i gynnal sesiynau amrywiol gyda'r plant. Dysgodd y Cyfnod Sylfaen am bobl sy'n eu helpu tra bu'r plant hŷn yn dysgu am ddiogelwch ar y wê, bwllo seibr ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd y sesiynau yn ddiddorol ac aeth y plant adref gyda phethau pwysig iawn i'w cofio.

Gwasanaeth Dydd Gŵyl Dewi

Cafwyd ein Gwasanaeth Dydd Gŵyl Dewi eleni yn yr ysgol gyda'r plant yn cyflwyno amryw o eitemau llefaru, canu ac offerynnol. Chwaraeodd gerddorfa'r ysgol ddarn arbennig wedi'i gyfansoddi gan Helen Hicks. Diolchwn yn fawr iawn i



Enillwyr Celf a Chrefft Eisteddfod yr Urdd (Ysgol Llangynfelyn)

Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener

(01970) 832 674



Baner Parêd Dydd Gŵyl Ddewi Ysgol Llangynfelyn

Helen am hyfforddi'r gerddorfa. Cafwyd gwledd o fara brith a phaned ar ôl y gwasanaeth wedi'i ddarparu gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.

Parêd Dydd Gŵyl Dewi Aberystwyth

Daeth criw da iawn o blant a rhieni i Aberystwyth i gymryd

Cyfes o brintiau monocrom BL5+6: 2il
Seamus Byrne

Cyfes o brintiau monocrom BL3+4:
3ydd Finn Langley

Graffeg cyfrifiadurol BL 5+6: 1af
Ruby Indeka

Graffeg cyfrifiadurol BL 3+4: 2il Katy
Indeka

Bydd gwaith Poppy a Ruby yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerffili ym mis Mai. Pob lwc i'r ddwy ohonynt!

Diwrnod y Llyfr

Daeth y plant i'r ysgol wedi'u gwisgo fel eu hoff gymeriadau allan o lyfr. Roedd yna amryw o wisgoedd arbennig o dda gyda phawb wedi gwneud yr ymdrech i wisgo fyny. Gwnaethpwyd gweithgareddau ar lyfrau a mwynhaodd bawb glywed storiâu gwahanol yn ystod y dydd.

Cofiwch edrych ar ein safle gwe newydd www.ysgolllangynfelyn.weebly.com a dilynwn ni ar Twitter @YGLlangynfelyn

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

INHERITANCE (7.30, nos iau, 26 Mawrth):
drama (gan Riding Lights) sy'n rhoi profiad cymunedol o theatr ac addoliad. Mae'n plethu elfennau o stori'r Dioddefaint i naratif newydd dramatig, ac yn rhoi cyfle i'r gynulleidfya ymateb wrth droed y Groes. Tocynnau: £6.

DIGWYDDIAD AML-DDIWYLLIANNOL (12.00, dydd Sadwrn, 11 Ebrill): cyfle i flasau, clywed, gweld a phrofi'r amryw ddiwyllianau sy'n rhan o'n cymdeithas. Mynediad: £3.

DEG DROS DDEG: FFAIR DATHLU (2.00-4.00, pŵn Sadwrn, 25 Ebrill): y cyntaf mewn 10 digwyddiad dros 10 mis i ddathlu dengmlwyddiant Morlan!

Manylion llawn: www.morlan.org.uk

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2JH
01970 617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan

YSGUBORYCOED

Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach: Sul y Mamau 15 Mawrth 3.00: Gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Stuart Bell a dathliad o flodau ar gyfer mamau.

Capel y Graig, Ffwrnais: Digwyddiad "Diffodd Golau" Awr y Ddaear, 28 Mawrth 8-10pm Cerddoriaeth acwstig byw a darllen barddoniaeth. Fe groesawir cyfraniadau cerddorol neu farddonol. Dewch a'ch diodydd cynnes eich hunain. Ceir rhagor o wybodaeth ar y ddolen hon: www.earthhour.org

Gwarchodfa Adar Ynys Hir, 22 Mawrth 1-4pm Wythnos Genedlaethol Gwyddoniaeth Ymunwch â ni am amrywiaeth o weithgareddau yn cynnwys arolwg cynefin a modrwyo adar. Oedolion £5 Plant £3 (aelodau RSPB £4 /£2.50) Ffoniwch 01654 700222 am fanylion.

Digwyddiadau yr Ystafell Haearn, Eglwysfach

Noson Cwis: 21 Mawrth, 7.30. Archebwch eich bwrdd drwy ffonio Chris 01654 703730 neu Roy 01654 781343

Cwrs Cymorth Cyntaf: 23 Mawrth 6.30-8.30pm. Wedi ei drefnu gan y Groes Goch yn y gymuned.

Meinciau Newydd i Langynfelyn

Mae chwe mainc newydd wedi'u gosod o gwmpas plwyf Llangynfelyn gan y Cyngor Cymuned. Maen nhw yn cymryd lle'r rhai hen a oedd yn dangos effeithiau'r tywydd a'r blynyddoedd. Rhoddwyd grant am 50% y gost i'r Cyngor Cymuned gan Gyngor Ceredigion. Gwnaethpwyd y rhai newydd allan o blastig wedi ei ail-gylchu (y plastig du sy'n cael ei defnyddio ar gyfer byrnau mawr silwair i fod yn fanwl gywir), felly ni fydd angen unrhyw waith cynnal a chadw: gobeithio bydd trigolion plwyf Llangynfelyn yn mwynhau saib arnyn nhw am ddegawdau i ddod.

Gosodwyd y meinciau yn eu lle gan griw o ddynion cryfion o'u gwirfodd. Diolch yn fawr iawn iddyn nhw oll.



Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Drefaldwyn: Gwarchodfa Cors Ddyfi

Yn ystod mis Mawrth bydd y tymor newydd yn cychwyn a bydd y warchodfa ar agor yn ddyddiol 10-5.

24 Mawrth 11-12 Wythnos Gweilch y Môr: amser stori yn Llyfrgell Machynlleth;

29 Mawrth, 2-3.30 Sgwrs gan Simon Boyes, "The Wildlife of Antarctica";

31 Mawrth 11-12.30 Sesiwn "Fy Nheulu Bywyd Gwyllt" (My Wild Life Family)

31 Mawrth, 2-3 Taith Gerdded a sgwrs Cors Ddyfi – cipolwg ar y warchodfa yn y gwanwyn.

Manylion llawn i'w gweld ar dudalen Facebook CDR&O, neu ffonio Kim Williamson 01654 781414. Codir tâl rhesymol am y weithgareddau.

Siop Cynfelyn

Llyfrgell Cynfelyn

Ar Ddydd Gŵyl Dewi, agorwyd 'Llyfrgell Cynfelyn': llyfrgell fenthyg llyfrau iaith Gymraeg. Er mai gyda dim ond 50 llyfr agorwyd y llyfrgell, gobeithir yn y dyfodol agos cynnig ystod o lyfrau (ac, yn y dyfodol, adnoddau a gemau DVD-ROM) ar gyfer pob oedran, yn ogystal ag adnoddau dysgu ar gyfer dysgwyr. Does dim angen ymaelodi i fenthyg llyfr – dim ond llenwi rhai manylion yn y 'llyfr gonest': Mae croeso i baw fenthyg llyfrau!

Estynnir diolch mawr i Gronfa Eleri ac i Ras yr Iaith am gynnig arian grant er mwyn stocio silffoedd y llyfrgell. At hyn, rhoddir diolch hefyd i Y Lolfa a Gwasg Hono am gyfrannu llyfrau am ddim. Os oes gennych unrhyw syniadau neu awgrymiadau ynglŷn â pha lyfrau yr hoffir gweld ar y silffoedd, cysylltwch â Lowri ar cletwr@cletwr.com



Siân yn dathlu Gŵyl Ddewi yn y siop

Ruth Jên Evans

Bydd gwaith Ruth Jên Evans yn cael ei arddangos trwy gydol mis Mawrth, hyd nes y 31ain, yn ardal 'y Cwtch', Siop Cynfelyn. Mynediad am ddim.

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

JEAN JAMES
Ffôn: 01970 612459

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL



Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont
01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

O'r Cynulliad

gan Elin Jones

Ers tair blynedd nawr, rwy' wedi bod yn ffodus i fod yn lefarydd fy mhlaidd dros iechyd. Mae hyn yn sicr wedi rhoi cyfle i mi weld y problemau o fewn ein gwasanaeth iechyd, ond hefyd i gwrdd â llawer o staff, gofaluwr a grwpiau gwirfoddol sy'n gwneud gymaint yn ein cymuned. Dros y mis diwethaf, cwrddais â meddygon, ymchwilyr sydd ar flaen y gad yn datblygu triniaethau newydd i gancr, a chymdeithasau sy'n ymwneud â phynciau mor amrywiol a phwysig ag MS ac iechyd meddwl.

Ond yn fwy na dim, mae'r rôl wedi bod yn gyfle i mi ddadlau'r achos dros yr angen i gael model gwahanol i'r gwasanaeth iechyd mewn ardaloedd gwledig fel Ceredigion. Yn gynyddol, mae rhai o gynrychiolwyr y proffesiwn meddygol yn pwysleisio'r angen i arbenigwyr i weithio mewn unedau mawr, sy'n trin cannoedd o gleifion gyda'r un math o salwch y flwyddyn, er mwyn datblygu eu sgiliau. Gallaf ddeall y ddadl, ond o weithredu polisi fel yma i'r eithaf, byddai gwasanaethau gwledig yn cael eu canoli fwyfwy mewn ffordd hollol annerbyniol.

Mae'n rhaid cael cyfundrefn wahanol, fwy hyblyg, mewn ardaloedd fel Ceredigion. Dyna pam yr wyf mor falch fod Adroddiad Longley ddiwedd y llynedd wedi cydnabod hynny. Ar ôl cymryd tystiolaeth eang o Geredigion, amlinellodd y math o fodolau gwahanol gellid eu dilyn, a rhoddodd weledigaeth o wasanaeth iechyd modern, a fyddai'n integreiddio gofal

meddygol a chymdeithasol, yn cryfhau gwasanaethau cynradd a lleol, ac yn rhoi lle canolog i Ysbyty Bronglais.

Y dasg yn awr yw sicrhau fod y weledigaeth hon yn cael ei weithredu. Newyddion calonogol oedd penodiad cyd-gadeiryddion i arwain y corff newydd fydd yn cynllunio gwasanaethau yn y canolbarth – Dr. Ruth Hall y cyn Swyddog Meddygol Cenedlaethol, a Jack Evershed sydd wedi bod yn ymgyrchydd cryf dros iechyd yng Ngheredigion ers blyneddau.

Mae dipyn o waith o'u blaenau, ond gobeithiaf dros y flwyddyn nesaf y gwelwn ddatblygu model newydd o ysbyty cyffredinol wledig ym Mronglais, ymgais wirioneddol i ddelio efo'r problemau recriwtio staff meddygol, bwrw ati gyda chynllun Cylch Caron, cychwyn ar Ysbyty newydd Aberteifi gyda'r cyfleusterau y mae'r gymuned eu eisiau, ac integreiddio gofal cymunedol ar draws y sir.

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur
- ... a rhagor



papurpawb.cymru

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Garej Paul Joseph

01970 822220

Pob Math o Geir
Gwasanaeth a Thrwsio
Diagnosteg a Weldio
Paratoi a Thrwsio MOT



Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre

Y Gair Olaf



'Dwi yn mwynhau gwyllo gem o rygbi cystal ag unrhyw un ac yn ystod y blyneddau yn byw yn yr Alban chollais i fawr o gemau yn Murrayfield. Roeddwn i yna yn gwyllo Clive Rowlands yn treulio'r gem yn cicio'r bel dros yr ystlys yn Chwefror '63. 'Doedd dim gymaint o gemau rhyngwladol yn y chwedegau – ond pencampwriaeth y pum gwlad a gem neu ddwy yn yr hydref. Gwledydd mawr hemisphere y de yn dod i'r gogledd yn eu tro ac nid pob un bob blwyddyn a'r ymeliad yn para tri mis nid tair wythnos.

Ond a yw yr heip sydd ynglwm a'r gemau rhyngwladol y dyddiau yma wedi mynd dros ben llestri? Tudalenu o rwtsh yn y papur sydd yn galw ei hun yn bapur cenedlaethol Cymru yn ystod yr wythnos cyn y gem. Ar fore gem Lloegr, tudalen goch yn wyneb i'r papur a deg neu ddeuddeg tudalen arall yn nghefn y papur ac yn eu ganol. Yn arwyddocaol ond pedair tudalen fore trannoeth y gem! A oes ryfedd fod ei gylchrediad yn diflanu – prin ugain mil o gopiau yn ol ffigyrau wythnos yma – yr isaf o brif papurau dyddiol Cymru. Tybed a oes yna wers i'r golygyddion yn hyn?

Yna mae gyda ni y "promos" gwirion ar y BBC am wythnos i ddeg diwrnod cyn y gemau. Cyn gem Lloegr tynnu cymhariaeth rhwng Sam Warburton a Sion Corn, wythnos yma plant mewn panto yn dynwared chwaraewyr. Diolch fyth am y teclyn i newid sianel heb godi o'r gadair! Wedi'r fuddugoliaeth ym Mharis, am y pythefnos nesaf, fe fydd yna lwyth o papur i fynd i'r ailgylchu heb ei ddarllen a digon o newid sianel!

Ieuan Morgan



Eisteddfod Maldwyn a'r Gororau (5 diwrnod)

Mae Jones Login wedi danfon taith i'r Eisteddfod Genedlaethol ers sawl blwyddyn bellach. Eleni gyda'r Eisteddfod yn Meifod, fydd y bws yn teithio trwy Gaerfyrddin, Llanbed, Dyffryn Aeron, Aberaeron, Aberystwyth, Talybont a Machynlleth ar ei ffordd i Meifod.

YN GYNWYSEDIG:

Teithio mewn bws moethus

4 noswaith o swper, gwely a brecwast yng Ngwely Ramada Wrecsam
Teithiau dyddiol i'r Eisteddfod (Dydd Mawrth i Ddydd Gwener)

Yswiriant teithio – rhad ac am ddim

Dyddiad	Pris
Mawrth 4 i Sadwrn 9 Awst 2015	£349.00
Atodiad ystafell sengl	£80.00

Am fwy o fanylion, neu i archebu cysylltwch â ni.
Jones Login, Login, Hendygywyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0UX
Ffôn: 01437563277 / www.joneslogin.co.uk

Jones Login
Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

CHWARAEON



Tarannau Tal-y-bont

Dyma dîm pêl-droed dan 9 oed Tarannau Tal-y-bont yn eu siacedau ymarfer newydd a noddwyd gan Graham Clark, Howdens, Aberystwyth. Bydd y siacedu cadw'r bois yn sych ar foreau Sadwrn gwlyb ac oer lawr ar gaeau Penweddig. Mae'r tîm yn cael tymor da, ennill wyth, chwe gêm gyfartal a cholli pedair. Diolch i'r rheolwr Mike Putt a Michael Thomas, Tal-y-bont am eu gwaith caled. Da iawn chi bois a phob lwc i'r tîm yn ystod y tymor.

LLITHRO YN LLANILAR

Wedi curo Penrhyn-coch 5-0 ar Gae'r Odyn Galch ar ddiwrnod olaf Chwefror, roedd Tal-y-bont yn gobeithio cynyddu mantais y tîm

ar frig y cynghrair drwy o leiaf gipio pwynt bant yn erbyn Llanilar ar 7 Mawrth. Gwaetha'r modd roedd y tîm cartref y drech na nhw gan ennill 3-0.

Mae'n agos iawn bellach ar frig y tabl gyda Thal-y-bont, Llanilar a Phadarn yn brwydro am y pwyntiau a fyddai'n cipio'r bencampwriaeth iddynt.

Cafodd ail dim Tal-y-bont fuddugoliaeth am y tro cyntaf ers amser drwy ennill 3-1 yn erbyn eilyddion Padarn ar Gae'r Odyn Galch.



Tîm Dan 14 Oed Penweddig

Dyma lun o dîm dan 14 oed Ysgol Penweddig sydd wedi cyrraedd rownd gynderfynol Cwpan Ysgolion Cymru. Mae'r tîm yn cynnwys dau fachgen lleol, Tyrone a Dylan Wyn. Dywedodd Pennaeth Addysg Gorfforol yr ysgol Clem Thomas: "Mae pob un o'r bechgyn yn frwdfrydig i fynd ymhellach na thîm yr uwch bechgyn y llynedd, a chyrraedd y rownd gyn-derfynol. Ffactor arall sy'n cymellu'r holl garfan yw y bydd Rownd Derfynol Cwpan Ysgolion Cymru Dan-14 yn cael ei chwarae yng Nghlwb Pêl-droed Aberystwyth yng nghanol mis Ebrill".

Eglwys St. Pedr, Elerch

Edrychwn ymlaen yn fawr iawn at groesawu curad newydd yr ofalaeth, Lyn Lewis Dafis, a fydd yn dechrau ar ei waith ar ddiwedd mis Mehefin. Bydd Lyn yn byw yn y Ficerdy ym Mhenrhyn-coch ac yn gwasanaethu eglwysi Llanbadarn Fawr, Penrhyn-coch, Capel Bangor ac Elerch o dan arweiniad y ficer, Y Parchg Andrew Loat. Ar hyn o bryd mae Lyn yn treulio blwyddyn dan hyfforddiant yng Ngholeg St. Mihangel, Llandâf, Caerdydd. Dymunwn yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.



Mike Parker
- dros Geredigion



Plaid Cymru | Party of Wales

Mae etholiad Mai'r 7ed yn debyg o fod yn un agos iawn. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cofrestru i bleidleisio, neu'n gwneud cais am bleidlais bost mewn da bryd.

I gofrestru am bleidlais, cysylltwch â ier@ceredigion.gov.uk neu ffoniwch y swyddfa etholiadol ar 01545 572033

Hyrwyddwyd gan Richard Owen ar ran Mike Parker, ill dau o 32 Heol y Wig, Aberystwyth, SY23 2LN



/MikeParkerCeredigion



@MikeParkerWales

BWYD DA . . .
CWMNI DA . . .

yBlac
TALYBONT

BWYTY A BAR

Cinio 12.00-2.30 Swper Nos 6.00-9.00 Cinio Sul 12.00-3.00

Partion | Digwyddiadau | Llogi ystafell | Pen-blwydd
Dathlu | Priodasau | Parti Bedydd | Te angladd

Swydd blaen tŷ ar gael cysylltwch â ni!

Gwelwn chi'n fuan. . . Cofion Siân, Catrin a'r tîm
01970 832 555 croeso@yblac.co.uk